# Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd – Fersiwn Ymgynghori



Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

# Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r Cymhwyster CBAC TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

# Trosolwg o'r Cymhwyster

Bydd y cymhwyster TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud y canlynol:

- cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[1], gan roi cyfle i'r dysgwyr:
  - deall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant y corff. Mae hyn yn cynnwys arferion sy'n hybu iechyd megis gweithgareddau corfforol gan gynnwys chwaraeon a gweithgareddau eraill
  - datblygu arferion gwybodus, cadarnhaol sy'n eu hannog i warchod, yn ogystal â pharchu eu hunain ac eraill. Mae'r arferion hyn yn cefnogi ymdeimlad dysgwyr o hunan-werth, eu hwyliau'n gyffredinol a'u lefelau egni
  - datblygu'r hyder, cymhelliant, gallu corfforol, gwybodaeth a dealltwriaeth a fydd o gymorth iddyn nhw fyw bywyd iach a gweithredol sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant y corff cadarnhaol
  - deall sut mae penderfyniadau a gweithredoedd yn cael effaith ar y dysgwyr eu hunain, ar eraill, ac ar y gymdeithas ehangach, a hynny yn y presennol a'r dyfodol. Gall hefyd fod o gymorth i ddysgwyr ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar wneud penderfyniadau, gan eu rhoi mewn gwell safle i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ac ystyriol
  - datblygu'r sgiliau meddwl beirniadol angenrheidiol er mwyn gallu pwyso a mesur goblygiadau posibl eu penderfyniadau
  - deall rôl bwysig dylanwadau cymdeithasol ar eu bywydau.

- cefnogi'r egwyddorion cynnydd[2] drwy annog dysgwyr i:
  - ailymweld â'r dysgu a chryfhau'r dysgu mewn cysyniadau yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws ystod eang o bynciau ac agweddau ar addysg gorfforol ac iechyd
  - datblygu eu hannibyniaeth a'u gweithrediaeth mewn materion sy'n ymwneud ag addysg gorfforol ac iechyd: gan arwain at gyfrifoldeb cynyddol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain
  - datblygu eu gallu i wneud, cyfiawnhau a gwerthuso penderfyniadau ar draws yr ystod o ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig
  - datblygu gwybodaeth gysyniadol a dealltwriaeth feirniadol mewn amrywiaeth o agweddau ar addysg gorfforol ac iechyd
  - datblygu sgiliau ymarferol, gan ddatblygu cywirdeb a hyfedredd cynyddol
  - trosglwyddo dealltwriaeth o'u llesiant eu hunain i lesiant eraill; gan ddod yn fwy cyfrifol yn gymdeithasol

---

[1] Iechyd a Llesiant: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb (llyw.cymru)
[2] Iechyd a Llesiant: Egwyddorion cynnydd - Hwb (llyw.cymru)



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT

- cefnogi'r ystyriaethau pwnc-benodol ar gyfer TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd[3] drwy ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr:
  - cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ac ymwneud â gwahanol rolau, cyfrifoldebau ac amgylcheddau
  - deall pa ffactorau, dylanwadau ac ymddygiadau sy'n llywio iechyd corfforol
  - ystyried pa benderfyniadau sy'n dylanwadu ar eu hiechyd a llesiant eu hunain ac iechyd a llesiant eraill
  - deall manteision gweithgaredd corfforol, gan gynnwys agweddau cymdeithasol, hamdden a pherfformio, yn ogystal â sut mae'n cefnogi eu hiechyd a llesiant corfforol
  - cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau amrywiol er mwyn helpu i ddatblygu a mireinio sgiliau echddygol *bras* a *manwl*, sgiliau trosglwyddadwy a'r gallu i gysylltu cynnydd â dyfalbarhad a hyder
  - deall sut y gall ffactorau ddylanwadu ar eu hiechyd a llesiant, datblygu'r sgiliau i gefnogi ymddygiadau iach yn perthyn i'r ffactorau hyn a'r hyder ac ysgogiad i gefnogi'r ymddygiadau hyn gydol oes
  - archwilio'r ffactorau sy'n effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Gall y rhain gynnwys pwysigrwydd ymarfer corff yn rheolaidd ac effaith deiet cytbwys, ymhlith pethau eraill
  - adfyfyrio ar oblygiadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor y penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud. Dylai'r broses gydnabod nad oes gan ddysgwyr o angenrheidrwydd gyfrifoldeb dros lawer o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a bod y cyfrifoldeb hwn yn tyfu dros gyfnod o amser. Mae'n bwysig adfyfyrio ar effaith penderfyniadau nid yn unig ar yr hunan ond ar bobl eraill a'r gymdeithas ehangach
  - cymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon tîm a chwaraeon unigol i gefnogi eu dealltwriaeth o arferion iechyd positif a'u gweithredu. Mae hyn hefyd yn cefnogi datblygu gweithio mewn tîm, gwydnwch a hyder unigolion. Gall astudio chwaraeon hefyd ddatgloi agweddau ar hanes cymdeithasol, gwleidyddiaeth, daearyddiaeth a gwyddoniaeth Cymru ac ar draws y byd.

## Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

| |
|---|
| **Uned 1: Egwyddorion Addysg Gorfforol ac Iechyd**<br>Arholiad ysgrifenedig<br>40% o'r cymhwyster<br>Arholiad digidol yn unig, wedi'i farcio gan CBAC |
| **Uned 2: Perfformio ac Hyfforddi/Hyfforddwr Personol**<br>**Asesiad di-arholiad** – asesiad ymarferol o berfformio ac hyfforddi/hyfforddwr personol<br>60% o'r cymhwyster<br>Wedi'i asesu'n fewnol gan y ganolfan, a'i gymedroli'n allanol gan gymedrolwr sy'n ymweld |

[3] [3] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles/cynllunio-eich-cwricwlwm/

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

Dyma'r canrannau arfaethedig ar gyfer y pedwar amcan asesu:

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | **Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth** o gysyniadau iechyd, llesiant a gweithgaredd corfforol, a'r cydberthnasau rhyngddynt | 10% |
| **AA2** | **Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth** o gysyniadau iechyd, llesiant a gweithgaredd corfforol, a'r cydberthnasau rhyngddynt | 20% |
| **AA3** | **Dadansoddi a gwerthuso** perfformiad mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol, a'r ffactorau sy'n effeithio arnynt. | 20% |
| **AA4** | **Dangos a chymhwyso** sgiliau a thechnegau perthnasol mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol. | 50% |

Cymhwyster llinol fydd hwn.

## Gwybodaeth am Unedau

Uned 1 – Egwyddorion Addysg Gorfforol ac Iechyd

**Pwrpas yr uned hon yw:**
- dangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n cyfrannu at gyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol.
- datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r ffordd y mae chwaraeon a gweithgaredd corfforol yn cael effaith ar iechyd a llesiant.
- dadansoddi ac adfyfyrio ar ffactorau perfformiad a sut y gellir eu datblygu.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o iechyd, llesiant a gweithgaredd corfforol
- y ffactorau sy'n effeithio ar lefelau gweithgaredd a'r gydberthynas ag iechyd a llesiant corfforol, cymdeithasol ac emosiynol
- y dylanwadau diwylliannol-gymdeithasol ar gyfranogiad, a datblygiadau cyfoes ar lwyfan lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- archwilio thema drawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant, cyfraniadau a phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Asesir yr uned drwy arholiad digidol a fydd ar gael yn y gyfres haf ym mlwyddyn olaf yr astudio. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1, AA2 ac AA3. Bydd y pwysoli uwch am AA2, wedi'i ddilyn gan AA1 ac AA3. Mae'r arholiad yn debygol o fod tua 1 awr 30 munud o hyd, ond bydd angen archwilio hyn ymhellach ynghylch caniatáu i ddysgwyr ailchwarae clipiau. Bydd gofyn i ddysgwyr adolygu ac ymateb i ysgogiadau gweledol.

DRAFFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

Uned 2 – Perfformio ac Hyfforddi/Hyfforddwr Personol

**Pwrpas yr uned hon yw:**
- dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ystod o sgiliau a thechnegau sydd eu hangen ar gyfer chwaraeon a gweithgaredd corfforol.
- dangos tactegau a strategaethau **a/neu syniadau cyfansoddiadol** yn cael eu cymhwyso yng nghyd-destun y gweithgaredd llawn.
- dangos sgiliau ac egwyddorion cynllunio, trefnu, cyfathrebu ac adfyfyrio'n cael eu cymhwyso.
- dangos hyder, gwydnwch, creadigrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth berfformio ac ymarfer.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- berfformio'n effeithiol mewn dwy gamp wahanol/dau weithgaredd corfforol gwahanol drwy ddatblygu sgiliau a dethol a defnyddio tactegau, strategaethau a/neu syniadau cyfansoddiadol
- datblygu a gweithredu sesiwn hyfforddi neu raglen hyfforddiant personol drwy ddadansoddi anghenion, cynllunio, monitro ac adfyfyrio.
- meddwl yn feirniadol ac yn fyfyriol am eu perfformiad a'u hymarfer eu hunain, a pherfformiad ac ymarfer eraill

Asesir yr uned drwy asesiad di-arholiad ymarferol. Rhaid gwneud yr uned hon ym mlwyddyn olaf y cwrs. Bydd dwy ran i'r asesiad hwn:

i. perfformiad yng nghyd-destun llawn unrhyw ddwy gamp neu weithgareddau corfforol o'r rhestr gymeradwy (40% o'r cymhwyster)
ii. cynllunio, dangos ac adolygu sesiwn hyfforddi neu raglen hyfforddiant personol ar gyfer eraill mewn camp neu weithgaredd corfforol a ddewiswyd o'r rhestr gymeradwy (20% o'r cymhwyster)

Bydd cymysgedd y tasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA3 ac AA4. Bydd y pwysoli uwch am AA4
yn yr asesiad hwn oherwydd yr elfennau ymarferol, ac yna AA3. Caiff yr asesiad di-arholiad ei asesu'n fewnol gan y ganolfan a'i gymedroli'n allanol gan gymedrolwr sy'n ymweld. Gellir asesu dysgwyr wrth berfformio ac hyfforddi/hyfforddi personol yn yr un gamp neu weithgaredd corfforol, neu mewn un camp neu weithgaredd corfforol gwahanol.

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd

Wrth ddatblygu'r amlinelliad arfaethedig hwn o'r cymhwyster, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd, a hefyd sut i gydbwyso'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn ôl y Meini Prawf Cymeradwyo, mae angen asesu 60% o'r cymhwyster drwy asesiad di-arholiad. Mae angen i CBAC osod y ddau asesiad di-arholiad, gyda'r ganolfan yn eu hasesu'n fewnol a'r corff dyfarnu'n eu cymedroli'n allanol. Cymhwyster llinol yw hwn, felly mae'n rhaid cyflwyno'r holl asesiadau di-arholiad yn y flwyddyn olaf. Gallai hyn olygu rhai heriau o ran hydrinedd. Mae ganddon ni rywfaint o bryderon o ran hydrinedd ynghylch canolfannau sydd â niferoedd mawr o ymgeiswyr i'w hasesu ar gyfer hyfforddi neu roi hyfforddiant personol i eraill, gan ei bod yn debygol y bydd angen i'r rhain fod yn asesiadau unigol sylweddol – mae cwestiwn yn ymwneud â hyn yn ein harolwg ac rydym yn croesawu eich safbwyntiau.  Rydym yn cynnig lleihau'r heriau o ran hydrinedd drwy gynnal cymedroli'r asesiadau di-arholiad gan gymedrolwr sy'n ymweld yn ystod tymor y gwanwyn ym mlwyddyn olaf yr astudio. Bydd hyn yn sicrhau bod y gwaith addysgu a dysgu gofynnol wedi'i gwblhau, gan leihau'r baich asesu i athrawon a dysgwyr yn nhymor y gwanwyn.

Credwn y dylai ein cymhwyster arfaethedig ddarparu cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio sy'n ennyn diddordeb eu dysgwyr, yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd Uned 1 yn cwmpasu amrywiaeth eang o ffactorau, gan roi'r cyfle i ddysgwyr astudio meysydd amrywiol mewn perthynas ag Addysg Gorfforol ac Iechyd. Bydd Uned 2 yn ymgysylltu â dysgwyr drwy eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon. Bydd hyblygrwydd i ddysgwyr ddewis camp neu weithgaredd corfforol o'r rhestr gymeradwy ar gyfer y ddwy dasg asesu di-arholiad. Er mwyn hwyluso hydrinedd ac ymgysylltiad dysgwyr ymhellach, ni fydd paramedrau o ran y ddwy gamp neu weithgaredd corfforol a ddewisir o'r rhestr gymeradwy. Dylai hyn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn gallu dangos eu sgiliau yn y cyd-destun mwyaf ystyrlon.

Credwn fod yr asesiadau di-arholiad arfaethedig ar gyfer Uned 2 yn ffordd ddilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys gan eu bod yn caniatáu i ddysgwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol. Mae ganddon ni rywfaint o bryderon o ran yr heriau posibl ynghylch datblygu ac asesu sgiliau sy'n ymwneud â rhoi Hyfforddiant Personol i eraill, e.e. defnyddio campfeydd a chyfarpar – mae ganddon ni gwestiwn ynghylch hyn yn ein harolwg ac rydym yn croesawu eich safbwyntiau. Er mwyn sicrhau dilysrwydd yr asesiadau di-arholiad, byddwn yn sicrhau bod pob uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf asesu ar gyfer y ddau asesiad di-arholiad. Bydd athrawon yn derbyn pecyn o gefnogaeth a fydd yn sicrhau bod y meini prawf asesu'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y canolfannau a dros amser. Byddwn yn sicrhau bod tasgau yn cael eu safoni er mwyn asesu'r un sgiliau, gyda meini prawf asesu cyffredin a dull safonol. Ar gyfer y tasgau asesu di-arholiad hyfforddi/hyfforddi personol, bydd cyfarwyddyd ar gael o ran y cymorth y gall dysgwyr ei ddefnyddio wrth ymateb i'r tasgau asesu. Mae'n debygol y defnyddir lefel uchel o reolaeth ar y cam asesu ffurfiol er mwyn sicrhau dibynadwyedd. Byddwn yn darparu cymedrolwr ymweld a fydd yn dewis sampl o waith canolfannau i gymedroli dibynadwyedd a dilysrwydd yr asesu.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT

Yn ôl y Meini Prawf Cymeradwyo, mae angen asesu 40% o'r cymhwyster drwy arholiad digidol yn unig. Credwn fod modd asesu pwrpas a chynnwys Uned 1 yn ddilys drwy arholiad, a gall cymysgedd o fathau o gwestiynau ein helpu i'w gwneud mor ddilys â phosibl. Pan fyddwn yn datblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, eu bod yn gytbwys o ran y cynnwys yr ymdrinnir ag ef dros amser a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. Er mwyn sicrhau dibynadwyedd, byddwn yn gwneud yn siŵr bod yr unedau arholiad yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd rhwng hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

DRAFFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

# ATODIAD

## Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o [Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd] Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

### Diben

1. Rhaid i'r **TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd**:
   1.1 gael ei ddylunio'n bennaf ar gyfer Dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed
   1.2. adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae Dysgwyr wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
   1.3. cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy’n briodol eang, heriol, perthnasol a gafaelgar ac sy'n cysylltu â’r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei bedwar diben
   1.4 galluogi Dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
   1.5 darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad Dysgwyr mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae Dysgwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

### Nodau

2. Rhaid i'r **TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd:**
   2.1 ganiatáu i Ddysgwyr archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas ag iechyd a llesiant, chwaraeon a gweithgarwch corfforol
   2.2. darparu cyfleoedd i Ddysgwyr gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon
   2.3 cefnogi dysgu sy'n cyd-fynd â Chod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y Cwricwlwm i Gymru, lle bo hynny'n briodol

3. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd** gefnogi Dysgwyr i:
   3.1 ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o iechyd, llesiant a gweithgarwch corfforol a'r cysylltiadau sy’n bodoli rhyngddynt
   3.2 deall y ffactorau sy'n effeithio ar lefelau gweithgarwch a'r berthynas ag iechyd a llesiant corfforol, cymdeithasol ac emosiynol drwy gydol y cylch bywyd
   3.3 deall y dylanwadau cymdeithasol-ddiwylliannol ar gyfranogiad, a’r datblygiadau cyfoes ym maes chwaraeon a gweithgarwch corfforol, a hynny ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol
   3.4 perfformio'n effeithiol mewn gwahanol chwaraeon a gweithgareddau corfforol drwy ddatblygu sgiliau a thechnegau a thrwy ddewis a defnyddio tactegau, strategaethau a/neu syniadau cyfansoddiadol
   3.5 dadansoddi perfformiad corfforol a dewis strategaethau ac ymyriadau priodol ar gyfer datblygiad a gwelliant
   3.6 meddwl yn feirniadol ac yn fyfyriol am eu perfformiad a'u hymarfer eu hunain, a pherfformiad ac ymarfer eraill
   3.7. archwilio themâu trawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys profiadau, safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol

### Amcanion Asesu

13. Yn yr asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y cymhwyster, rhaid targedu'r amcanion asesu canlynol i gyfateb i'r pwysoli a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | **Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth** o gysyniadau iechyd, llesiant a gweithgaredd corfforol, a'r cydberthnasau rhyngddynt | 10% |
| **AA2** | **Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth** o gysyniadau iechyd, llesiant a gweithgaredd corfforol, a'r cydberthnasau rhyngddynt | 20% |
| **AA3** | **Dadansoddi a gwerthuso** perfformiad mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol, a'r ffactorau sy'n effeithio arnynt. | 20% |
| **AA4** | **Dangos a chymhwyso** sgiliau a thechnegau perthnasol mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol. | 50% |

## Cynllun asesu

14. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd** fod yn llinol.

15. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd** ddangos cyfran y marciau (wedi'u pwysoli a/neu'n grai) a ddyrennir i bob amcan asesu ac i bob *Cydran*.

16. Rhaid i fanyleb **TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd** gynnwys y trefniadau asesu canlynol:
    16.1 arholiad digidol yn unig sy'n:
        16.1.1 cyfrif am 40% o'r cymhwyster
        16.1.2 cael ei osod a'i farcio gan y corff dyfarnu
        16.1.3 cynnwys mathau o eitemau sy'n cael eu gwella gan y llwyfan profi digidol
        16.1.4 cynnwys recordiadau o chwaraeon a gweithgareddau corfforol ac sy'n gofyn i'r Dysgwyr eu hadolygu ac ymateb iddynt
    16.2 asesiad di-arholiad sy'n asesu sut mae *Dysgwyr* yn perfformio mewn dau chwaraeon neu weithgaredd gorfforol a ddewiswyd o'r rhestr gymeradwy:
        16.2.1 rhaid i'r asesiad gyfrif am 40% o'r cymhwyster. Rhaid i gyfraniad pob camp neu weithgaredd fod yn gyfartal
        16.2.2 mewn gweithgareddau corfforol neu chwaraeon tîm, rhaid i *Ddysgwyr* ddangos eu bod yn cymhwyso sgiliau, technegau a strategaethau sy'n briodol i'r safle/gweithgaredd mewn sefyllfaoedd heriol, hynny yw mewn [4] cyd-destun llawn a chystadleuol
        16.2.3 mewn gweithgareddau corfforol neu chwaraeon unigol, rhaid i *Ddysgwyr* ddangos eu bod yn cymhwyso sgiliau, technegau a strategaethau sy'n briodol i'r gweithgaredd mewn sefyllfaoedd heriol, hynny yw mewn cyd-destun llawn a chystadleuol
        16.2.4 rhaid i'r asesiad gael ei farcio gan y *Ganolfan* a'i *Gymedroli* gan y corff dyfarnu gan ddefnyddio cymedrolwr sy'n ymweld
        16.2.5 rhaid i *Ddysgwyr* gael y cyfle i gwblhau eu hasesiadau oddi ar y safle, lle bo hynny'n briodol
    16.3 asesiad di-arholiad mewn hyfforddiant neu hyfforddiant personol:
        16.3.1 rhaid i *Ddysgwyr* ddewis bod naill ai yn hyfforddwr neu'n hyfforddwr personol a rhaid iddynt hyfforddi neu roi hyfforddiant personol i eraill
        16.3.2 rhaid i'r asesiad gyfrif am 20% o'r cymhwyster
        16.3.3 rhaid i'r asesiad gael ei farcio gan y *Ganolfan* a'i *Gymedroli* gan y corff dyfarnu gan ddefnyddio cymedrolwr sy'n ymweld

[4] Er eglurder, gellid dangos y cyd-destun cystadleuol drwy gystadlu yn erbyn *Dysgwyr* eraill neu drwy gystadlu yn erbyn yr amgylchedd/amodau ar ddiwrnod yr asesiad.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT

16.3.4 rhaid i *Ddysgwyr* ddewis camp neu weithgaredd corfforol o'r rhestr gymeradwy – gallent ddewis un o’r campau neu weithgareddau corfforol a aseswyd yn yr asesiad di-arholiad o berfformiad

16.3.5. lle bo'n briodol, rhaid i *Ddysgwyr* gael cyfle i gwblhau’r asesiad ar gyfer eu gweithgaredd hyfforddi neu hyfforddiant personol oddi ar y safle

17. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd** ddefnyddio technolegau digidol er mwyn i *Ddysgwyr* gyflwyno tystiolaeth o waith yn yr asesiad di-arholiad o gamp neu weithgaredd corfforol lle nad oes modd i'r cymedrolwr ymweld ei weld yn fyw.

18. Rhaid i'r corff dyfarnu nodi ei reolau o ran ailsefyll ac ailgyflwyno ar gyfer **TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd** yn unol â'r *Amodau a Gofynion ar gyfer TGAU Cenedlaethol*.

DRAFFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.